# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# SEIRI MAEN A CHERFWYR CARREG

Yn yr oesoedd canol nid oedd llawer o adeiladu'n cael eu codi o friciau, a dim o gwbl o goncrit. Fel arfer, byddai tai yn cael eu hadeiladu o bren, bangorwaith a dwb, ond roedd eglwysi, cestyll a phalasau yn aml wedi'u gwneud o garreg. Roedd hyn yn golygu bod swydd y saer maen yn un bwysig iawn.

Yn aml roedd gan balasau ac eglwysi byrth a phileri wedi'u cerfio'n gywrian, felly byddai galw ar y cerfiwr carreg i gynhyrchu'r rhain.

Byddai'r blociau carreg yn cael eu cloddio o'r cwar, a'u cludo i'r safle gwaith ar ffurf blociau sgwâr. Yna byddai'r cerrig yn cael eu cerfio yn y fan a'r lle, cyn cael eu gosod yn y lleoliad terfynol.




Detail of a miniature of a wright with a hammer, a hatchet, and a mason's trowel. British Library MS Royal 19 C XI f. 26



Eglwys Cadeiriol Dewi Sant, Cymru
Ffotograff gan Waterborough, Wikimedia Commons.

Fe fyddai pob carreg o'r adeilad hardd hwn wedi'i gerfio o waith llaw gan seiri maen.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Mae’r saer maen hwn yn dal sgwâr a themplad i’w helpu i gael y siap yn iawn.
Llun yn ‘Hausbuch der Mendelschen Zwöflbrüderstiftung’ (1426-1549), Stadtbibliothek Nürnberg, Amb. 317.2°, fol. 76r.

Roedd seiri maen yr oesoedd canol yn defnyddio amrywiol offer i gerfio eu cerrig. Byddan nhw’n defnyddio bwyell, pwynt, cŷn a dril at y gwaith cerfio, yn enwedig wrth gerflunio

Defnyddiwyd llawer math o gerrig. Ar gyfer nenfwd cromennog eglwys byddan nhw fel arfer yn defnyddio calchfaen. Roedd y garreg hon yn ddigon cryf i ddal ei siap ond hefyd yn ddigon meddal i’w cherfio.

Byddai’r mwyafrif o’r cerfwyr carreg yn aelodau o urdd, urdd a fyddai ambell waith hefyd yn cynnwys seiri maen a bricwyr. Roedd cyflog cerfiwr carreg yr oesoedd canol fel arfer yn uwch na’r cyfle cyfartalog.



The tower of Babel being built by masons, from the Egerton Genesis Picture Book, England, c. 1350-1375, Egerton MS 1894, f. 5v
https://blogs.bl.uk/digitisedmanuscripts/2016/07/masons-and-manuscripts.html

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Wedi iddo naddu’r garreg, byddai’r saer maen yn gosod ei farc unigol arni er mwyn dangos taw fe oedd wedi naddu’r darn honno o garreg, ac felly byddai’n cael ei dalu am y gwaith.

Yna byddai’r saer maen yn gosod marc arall ar y garreg i ddangos ei bod yn barod i’w chynnwys yn yr adeilad dan sylw.

Fel arfer byddai’r ochr o’r garreg lle y cerfiwyd y marciau yn cael ei gosod ar ochr fewnol yr adeiladwaith, fel na fyddai modd ei weld ond, o bryd i’w gilydd, gallwch weld y fath farciau ym muriau eglwysi.



Mason's mark, Nidaros Cathedral, Trondheim, Norway, early 14th century.
Photo: Roede, CC BY 3.0 <https://creativecommons.org/licenses/by/3.0>, via Wikimedia Commons

Y testun wedi’i addasu o:
https://medievalbritain.com/category/type/medieval-life/occupations/
https://www.tracingthepast.org.uk/2021/04/11/constructing_stonecutting/#:~:text=Medieval%20masons%20used%20a%20variety,a%20series%20of%20incised%20lines.
https://cultureseekers.blog/2017/12/28/stonemason-marks/

MYSTERIOUS AFAN CUDD